Cefnogi Datblygiad Lleferydd, Iaith a Chyfathrebu yn y Blynyddoedd Cynnar

# Adran 2:
## Canllaw i blant 0 i 18 mis oed



OGL © Hawlfraint y Goron 2023, Llywodraeth Cymru, WG48480 ISBN digidol 978-1-83504-698-2
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg

# Cefnogi Datblygiad Lleferydd, Iaith a Chyfathrebu yn y Blynyddoedd Cynnar

## Adran 2: Canllaw i blant 0 i 18 mis oed

Tudalennau Trosolwg

Sylw a Gwrando ....................17
Chwarae a Rhyngweithio ....................18
Deall Iaith Lafar ....................19
Defnyddio Iaith Lafar ....................20
Lleferydd ....................21

Poster Siarad â Fi ....................23


Dilyniannau Datblygiadol a Gweithgareddau a Awgrymir:

Sylw a Gwrando ....................24
Chwarae a Rhyngweithio ....................28
Deall Iaith Lafar ....................32
Defnyddio Iaith Lafar ....................36
Lleferydd ....................40

Trwy gydol y canllaw yma, cyfeiriwyd at ddatblygiad nodweddiadol LlICh.
Mae'n bwysig cefnogi'r plentyn yn ei gam datblygu yn hytrach na'i oedran.

## Sylw a Gwrando

0 i 18 mis




**Sgiliau sylw a gwrando yw sylfaen lleferydd, iaith a chyfathrebu.** Mae angen i blant ddatblygu'r sgiliau hanfodol hyn er mwyn gallu deall y byd o'u cwmpas, datblygu sgiliau cymdeithasol, deall arferion, dysgu geiriau newydd a datblygu synau lleferydd.

**Rhwng 0 a 6 mis oed efallai y sylwch chi fod babi'n...**

- cael eu brawychu gan synau swnllyd
- adnabod eich llais ac yn troi eu pen i glywed eich llais
- hoffi gwrando ar synau gwahanol
- cael eu sylw wedi ei dynnu'n gyflym gan unrhyw beth sy'n newydd neu'n newid o'u cwmpas.

**Rhwng 6 a 12 mis oed efallai y sylwch chi fod babi'n...**

- cael eu sylw wedi ei dynnu'n hawdd (sylw'n mynd a dod)
- edrych arnoch wrth i chi siarad neu wrth glywed rhywun yn galw eu henw
- chwarae ar eu pen eu hun am 5 munud gyda'r un gweithgaredd
- canolbwyntio ar synau gwahanol (ffôn, cloch y drws, cloc).

**Rhwng 12 a 18 mis efallai y sylwch chi fod y plentyn yn...**

- rhoi sylw i weithgaredd a arweinir gan oedolyn am hyd at 2 funud
- rhoi sylw i gerddoriaeth a chanu
- mwynhau teganau a gwrthrychau sy'n gwneud synau
- dewis gweithgaredd ac efallai'n canolbwyntio arno'n ddwys am gyfnod byr
- canolbwyntio mor galed ei bod yn ymddangos nad yw'n clywed pethau eraill (sylw anhyblyg)
- parhau i gael eu sylw wedi ei dynnu'n hawdd, fel arfer gan rywbeth swnllyd neu fwy cyffrous.

**Creu amgylchedd sy'n galluogi:**

☑ Cynlluniwch ar gyfer rhywfaint o amser tawel.
☑ Lleihewch y sŵn cefndir a'r pethau sy'n tynnu sylw.

**Strategaethau i ddatblygu sylw a gwrando:**

- Sicrhewch eich bod wyneb-yn-wyneb â'r plentyn.
- Defnyddiwch y strategaethau ar y Poster *Siarad gyda Fi.*




**CHWARAE GYDA FI... edrychwch ar y gweithgareddau a awgrymir ar dudalennau 25 i 27**

**Gwrando am synau**



**Archwilio synau gwahanol yn yr amgylchedd**




**Canu caneuon a rhigymau**



## Chwarae a Rhyngweithio

0 i 18 mis




**Mae plant yn gwneud synnwyr o'r byd trwy chwarae ac mae chwarae'n hollbwysig er mwyn cefnogi datblygiad yr ymennydd yn y blynyddoedd cynnar.** Trwy chwarae, mae plant yn datblygu ac yn dysgu defnyddio'u sgiliau lleferydd, iaith a chyfathrebu. Chwarae yw'r cyd-destun hollbwysig i blant dan bum mlwydd oed er mwyn dysgu am sgiliau cymdeithasol.

**Mae rhyngweithio yn cynnwys y gallu i chwarae mewn ffordd gydweithredol gyda chyfoedion a chymryd tro**. Trwy chwarae a rhyngweithio, mae plant yn dysgu deall eu hemosiynau a'u rheoleiddio, a datblygu eu sgiliau cymdeithasol.

### Rhwng 0 a 6 mis oed efallai y sylwch chi fod babi'n...

- gwylio wynebau pobl wrth iddynt siarad â nhw
- crïo mewn ffyrdd gwahanol i fynegi anghenion
- edrych ar wynebau pobl a chopïo symudiadau'r wyneb e.e. dangos eu tafod.

### Rhwng 6 a 12 mis oed efallai y sylwch chi fod babi'n...

- archwilio popeth ac yn dechrau chwarae gyda phethau yn y ffordd briodol e.e. taro drwm
- chwilio am wrthrych os ydyw'n disgyn neu'n rholio i ffwrdd (sefydlogrwydd gwrthrych)
- mwynhau rhigymau a chaneuon â symudiadau
- cymryd eu tro i siarad - parablu yn ôl wrth oedolyn
- cael eu hypsetio wrth gael eu gwahanu oddi wrth eu prif ofalwr.

### Rhwng 12 a 18 mis efallai y sylwch chi fod y plentyn yn...

- mwynhau chwarae ailadroddus e.e. rhoi pethau i mewn i focsys a'u tynnu allan yn aml
- dechrau mwynhau chwarae dychmygus syml e.e. esgus eu bod yn siarad ar y ffôn
- chwarae er eu pen eu hun ond yn hoffi bod yn agos at oedolyn cyfarwydd
- chwifio 'ta-ta' ac yn ymuno wrth chwarae pi-po
- defnyddio cyswllt llygaid i ddechrau rhyngweithio.

### Creu amgylchedd sy'n galluogi:

- ☑ Darparwch amrywiaeth o wrthrychau bob dydd a theganau.
- ☑ Darparwch wrthrychau â phriodoleddau synhwyraidd i fabanod eu harchwilio e.e. mewn basgedi trysor.
- ☑ Sicrhewch fod plant yn gallu dewis yn rhydd o ddewis addas o lyfrau, teganau ac adnoddau.




### STRATEGAETHAU i ddatblygu chwarae a rhyngweithio:

- Modelwch y cam chwarae nesaf.
- Defnyddiwch y strategaethau ar y poster *Siarad gyda fi.*

### CHWARAE GYDA FI...edrychwch ar y gweithgareddau a awgrymir ar dudalennau 29 - 31

**Cymryd tro**



**Adeiladu tŵr**




**Chwarae gyda gwrthrychau**



## Deall Iaith Lafar

0 i 18 mis




**Mae deall iaith lafar (iaith dderbyngar) yn hollbwysig er mwyn i blant wneud synnwyr o'r byd o'u cwmpas.** Mae'n cynnwys y gallu i ddeall geiriau, brawddegau a chyfathrebu dieiriau pobl/plant eraill. Mae plant yn dysgu datblygu dealltwriaeth o eiriau a brawddegau mewn camau; un gair yn gyntaf, yna nifer o eiriau unigol, yna brawddegau byr ac yna brawddegau hirach, mwy cymhleth.

**Rhwng 0 a 6 mis efallai y sylwch chi fod babi'n...**

- cyffroi wrth glywed lleisiau e.e. cicio'u coesau, chwifio'u breichiau neu wneud synau
- yn aml yn cael eu tawelu gan leisiau cyfeillgar a chyfarwydd
- dal ac yn archwilio gwrthrychau
- rhoi gwrthrychau yn eu ceg, eu hysgwyd a'u taro.

**Rhwng 6 a 12 mis, efallai y sylwch chi fod babi'n...**

- deall geiriau sy'n cael eu defnyddio'n aml fel '*wedi mynd', 'na', 'ta ta', 'lan'* pan fyddwch chi'n defnyddio ystumiau ar yr un pryd
- adnabod enwau gwrthrychau cyfarwydd e.e. *cwpan, tedi, mami*
- dangos adnabyddiaeth o rigymau a chaneuon cyfarwydd trwy ymuno ar lafar neu trwy symudiadau'r corff cyfan.

**Rhwng 12 a 18 mis efallai y sylwch chi fod y plentyn yn...**

- deall amrywiaeth eang o eiriau sengl a rhai cymalau dau-air maen nhw'n eu clywed yn aml yn ystod y dydd, e.e. *'gwisgo cot', 'diod', 'i mewn i'r bygi, 'esgidiau'*
- adnabod ac yn pwyntio at wrthrychau cyfarwydd a lluniau mewn llyfrau pan ofynnir iddynt
- pwyntio at rannau o'r corff.

**Creu amgylchedd sy'n galluogi:**

- ☑ Sicrhewch fod plant yn gallu dod o hyd i'r adnoddau y mae arnynt eu hangen e.e. adnoddau ar lefel y llygaid.
- ☑ Defnyddiwch ffotograffau, lluniau a geiriau i labelu bocsys/basgedi.
- ☑ Cefnogwch straeon ac arferion gyda phropiau a chymhorthion gweledol.

**STRATEGAETHAU i ddatblygu dealltwriaeth o iaith lafar:**

- Siaradwch â fi am yr hyn y gallwn ni ei weld.
- Defnyddiwch y strategaethau ar y Poster *Siarad gyda Fi.*





**CHWARAE GYDA FI...edrychwch ar y gweithgareddau a awgrymir ar dudalennau 33 - 35**

| Rhannu llyfrau | Archwilio eitemau bob dydd | Gwneud stori |
| --- | --- | --- |
|  |  |  |

## Defnyddio Iaith Lafar

0 i 18 mis




**Defnyddio iaith lafar (iaith fynegiannol) yw'r gallu i atgofio geiriau a gwybodaeth a defnyddio iaith, iaith y corff ac ystumiau yn briodol mewn sefyllfaoedd penodol e.e. i enwi gwrthrychau, disgrifio symudiadau a digwyddiadau, holi ac ateb cwestiynau ac ail-ddweud stori.**

Mae geirfa eang yn hollbwysig i blant er mwyn iddynt allu manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd dysgu a mynegi eu meddyliau a'r hyn y maent ei angen a'i eisiau.

**Rhwng 0 a 6 mis efallai y sylwch chi fod babi'n...**

- gwneud synau lleisiol er mwyn cael sylw
- gwneud synau fel cwynfan, gyrglan a pharablu iddyn nhw'u hunain a gyda phobl eraill
- gwneud synau yn ôl pan fydd rhywun yn siarad â nhw
- gwneud synau ac yn chwerthin pan fydd pobl eraill yn gwenu ac yn chwerthin.

**Rhwng 6 a 12 mis, efallai y sylwch chi fod babi'n...**

- gwneud synau siarad - parablu cyfresi o synau fel '*mamama', 'dadada', 'bababa'*
- defnyddio ystumiau fel chwifio a phwyntio i helpu cyfathrebu
- ceisio copïo synau y mae rhywun arall yn eu gwneud.

**Rhwng 12 a 18 mis efallai y sylwch chi fod y plentyn yn...**

- parablu ac yn defnyddio tua 20 o eiriau sengl (sydd efallai ddim yn glir).
- copïo ystumiau a geiriau gan oedolion
- defnyddio goslef a thraw a newid lefel y sain wrth siarad.

**Creu amgylchedd sy'n galluogi:**

☑ Darparwch amrywiaeth o wrthrychau bob dydd, teganau ac adnoddau i ddal diddordebau'r plentyn.
☑ Sicrhewch fod gennych ardaloedd cyffyrddus, tawel er mwyn i blant ymlacio a rhannu llyfr.


**STRATEGAETHAU i ddatblygu'r defnydd o iaith lafar:**

- Siaradwch am yr hyn mae'r plentyn yn ei wneud/weld.
- Defnyddiwch arferion gofal i gyflwyno geiriau newydd.
- Defnyddiwch y strategaethau ar y Poster *Siarad gyda Fi.*





**CHWARAE GYDA FI... edrychwch ar y gweithgareddau a awgrymir ar dudalennau 37 i 39**


**Chwarae gêmau copïo**



**Gwneud marciau**




**Chwarae 'Ar eich marciau...barod, EWCH!'**



## Lleferydd

0 i 18 mis




**Mae lleferydd (ffonoleg) yn cyfeirio at y gallu i ddweud synau lleferydd i wneud eich hun yn ddealladwy. Pan fyddwn yn gwrando ar blentyn yn siarad, gallwn feddwl am pa mor glir yw ei eiriau. Nid yw *lleferydd* yr un peth â *siarad.***

Defnyddiwch y Poster Datblygiad Synau Lleferydd Saesneg sydd ar dudalen 41 a'r Speech acquisition - Multilingual Children's Speech (csu.edu.au) i gefnogi eich arsylwadau.

**Rhwng 0 a 6 mis efallai y sylwch chi fod babi'n...**

- gwneud synau lleisiol e.e. cwynfan, gyrglan a chwythu swigod
- parablu gan ddefnyddio goslef e.e. amrywio'r llais
- gwneud synau yn ôl pan fydd rhywun yn siarad â nhw
- chwerthin wrth chwarae.

**Rhwng 6 a 12 mis, efallai y sylwch chi fod babi'n...**

- parablu gan ddefnyddio synau cytseiniaid penodol e.e. b, d, m, n
- defnyddio synau lleferydd (parablu) i gyfathrebu ag oedolion e.e. *'ba-ba'; 'da-da'*
- ceisio copïo synau y mae rhywun arall yn eu gwneud.

**Rhwng 12 a 18 mis efallai y sylwch chi fod y plentyn yn...**

- parablu'n gyson ac yn defnyddio geiriau sengl wrth chwarae
- copïo synau a geiriau a ddefnyddir gan oedolion
- defnyddio goslef, traw a newid lefel y sain wrth 'siarad'

**Creu amgylchedd sy'n galluogi:**

- ☑ Lleihewch bethau sy'n tynnu sylw a synau cefndir.
- ☑ Canwch lawer o rigymau.

**Strategaethau i ddatblygu lleferydd clir:**

- Sicrhewch eich bod wyneb-yn-wyneb â'r plentyn.
- Copïwch y synau y mae'r plentyn yn eu gwneud.
- Ailadroddwch ymgais ar air, gan ddefnyddio synau cywir.
- Defnyddiwch y strategaethau ar y poster *Siarad gyda Fi.*




**GWEITHGAREDDAU A AWGRYMIR i gefnogi datblygiad lleferydd:**

**Dweud a chanu caneuon a rhigymau bob dydd!**



Seren Fechan yn y Nen...



Fuoch chi 'Rioed yn Morio...




Dau gi bach...

**Bydd gweithgareddau a awgrymir ymhob maes cyfathrebu arall yn cefnogi datblygiad lleferydd ar yr oed hwn.**

## Posteri Strategaethau a Gweithgareddau a Awgrymir: 0 i 18 mis

Yn yr adran hon, fe welwch chi boster strategaethau *Siarad gyda Fi* Llywodraeth Cymru a gweithgareddau a awgrymir i'ch arwain chi wrth gynllunio i ddatblygu lleferydd, iaith a chyfathrebu'r plentyn.




Rhoddir y gweithgareddau a awgrymir fel enghreifftiau; defnyddiwch eich profiadau a'ch syniadau i'w cyfoethogi. Ni fwriedir i'r gridiau fod yn rhaglen benodol, anhyblyg; ond, gellir defnyddio'r syniadau i gefnogi targedau wedi'i bersonoli, fel sy'n briodol. Gallwch ddefnyddio bocset *'Early Talkers'* hefyd i gael mwy o syniadau ond nid yw hwn ar gael yn Gymraeg (ar gael ar speechandlanguage.org.uk).

**Strategaethau i ddatblygu sylw a gwrando:**

- Sicrhewch eich bod wyneb-yn-wyneb â'r plentyn.
- Defnyddiwch y strategaethau ar y Poster *Siarad gyda Fi.*

**PWYSIG:** Defnyddiwch y strategaethau a awgrymir gyda'r gweithgareddau, ac yn eich rhyngweithiadau trwy gydol y dydd.




| Gweithgaredd | Sylw a Gwrando - Gweithgareddau a Awgrymir (0 i 6 mis) | Rhy anodd? | Rhy hawdd? |
|---|---|---|---|
| **Gwrando am synau** | ***Gwneud synau swnllyd/tawel a chyflym/araf.*** Annog babi i wneud synau.<br><br>**Sut i chwarae:** Llenwch focsys a photeli gyda phasta, pys, reis neu ffa sych. Sicrhewch fod y caeadau arnynt yn dynn a'u hysgwyd nhw i babi. Gadewch i babi gael tro hefyd. | Gwnewch sŵn a rhowch amser i babi brosesu'r sŵn. Dechreuwch gyda synau tawel ac adeiladwch i fyny at synau mwy swnllyd. | Rhowch dro ar synau cyflym ac araf hefyd. |
| **Canu caneuon a rhigymau** | ***Talu sylw i'ch llais.*** Annog babi i'ch gwylio chi ac i 'gopïo' eich symudiadau. Efallai y byddan nhw'n ymuno gyda rhai synau.<br><br>**Sut i chwarae:** Cynhaliwch babi gyda chlustogau neu eisteddwch gyda nhw ar eich côl/glin yn eich wynebu. Canwch a gwnewch y symudiadau ar gyfer caneuon a rhigymau syml. | Wynebwch babi a siarad â nhw, i weld os ydyn nhw'n gallu ymateb i'ch llais gyda chyswllt llygaid. | Canwch fwy o rigymau a chaneuon gyda nhw. |
| **Archwilio synau gwahanol yn yr amgylchedd** | ***Sylwi ar synau yn yr amgylchedd.*** Annog babi i adnabod synau yn eu hamgylchedd.<br><br>**Sut i chwarae:** Wrth i chi ddal babi ac archwilio'r cartref neu'r lleoliad, labelwch y synau maen nhw'n gallu eu clywed. *'Fi'n gallu clywed y ffôn yn canu.''Fi'n gallu clywed ci yn cyfarth.'...* | Dechreuwch gydag un sŵn ar y tro. | Cyflwynwch synau swnllyd a thawel. |

Mae'r gridiau gweithgaredd yn dangos sut mae modd addasu gweithgareddau tebyg ar gyfer plant 0 i 6 mis oed; 6 i 12 mis oed; 12 i 18 mis oed.

Mae gan bob agwedd ar leferydd, iaith a chyfathrebu dudalen sy'n amlinellu camau datblygiad.

**Mae sylw'n dilyn dilyniant datblygiadol:**

| 0 i 11 mis | 8 i 20 mis | 22 i 36 mis |
|---|---|---|
| **Sylw'n Mynd a Dod**<br>Hawdd tynnu ei sylw a sylw'n mynd a dod o un peth i'r nesaf. | **Sylw Anhyblyg**<br>Gall ganolbwyntio ar un dasg o'u dewis eu hunain, ac ni all oddef oedolyn yn torri ar eu traws | **Sylw sianel sengl**<br>Bydd yn rhoi sylw i gyfarwyddyd gan oedolyn.<br>Methu ag ymdopi â gwneud un peth a gwrando ar gyfarwyddyd am rywbeth arall. |
| **30 i 50 mis** | **40 i 60 mis** | **60 mis +** |
| **Ffocysu'r sylw**<br>Dechrau rheoli ei ffocws ei hun.<br>Gall ganolbwyntio ar un peth ar y tro (y dasg neu'r cyfarwyddyd sydd ddim yn gysylltiedig).<br>Gall newid ffocws ei sylw'n annibynnol. | **Sylw dwy sianel**<br>Gall ymgymryd â thasg a deall cyfarwyddyd ar yr un pryd.<br>Gall ei sylw fod yn fyr ond nawr gellir eu haddysgu mewn grŵp. | **Sylw integredig**<br>Mae'r sylw wedi'i reoli, ei gynnal a'i sefydlu'n dda ar draws sefyllfaoedd gwahanol, gyda phobl wahanol. |

- **Efallai y bydd rhai plant yn gweithredu ar lefel sy'n is na'u hoed cronolegol**
- **Ni all plant ddatblygu eu sgiliau lleferydd, iaith a chyfathrebu os nad ydynt yn gallu talu sylw neu wrando**


Siarad gyda fi
10 tip i fy helpu i ddysgu siarad
Siarad Gyda Fi
Talk With Me
1 Dechreua siarad gyda fi cyn i fi gael fy ngeni
2 Galla'i ddysgu ein hiaith a'n diwylliant gen ti
3 Ein lle gorau yw wyneb yn wyneb
4 Cana gân i fi unrhyw bryd
5 Beth am siarad a chwarae bob dydd
6 Beth am edrych ar lyfrau gyda'n gilydd
7 Siarada gyda fi am beth gallwn ni ei weld
8 Beth am droi 'amser sgrin' yn 'amser ti a fi'!
9 Ychwanega air at beth rwyt ti wedi fy nghlywed i'n dweud
mawr!
10 Dwi wrth fy modd yn siarad gyda phawb!
Mae fersiwn Saesneg o'r poster hwn ar gael yn: gov.wales/talkwithme
llyw.cymru/siaradgydafi

**Mae sylw'n dilyn dilyniant datblygiadol:**

| 0 i 11 mis | 8 i 20 mis | 22 i 36 mis |
|---|---|---|
| **Sylw'n Mynd a Dod**<br>Hawdd tynnu ei sylw a sylw'n mynd a dod o un peth i'r nesaf. | **Sylw Anhyblyg**<br>Gall ganolbwyntio ar un dasg o'u dewis eu hunain, ac ni all oddef oedolyn yn torri ar eu traws | **Sylw sianel sengl**<br>Bydd yn rhoi sylw i gyfarwyddyd gan oedolyn.<br>Methu ag ymdopi â gwneud un peth a gwrando ar gyfarwyddyd am rywbeth arall. |
| **30 i 50 mis** | **40 i 60 mis** | **60 mis +** |
| **Ffocysu'r sylw**<br>Dechrau rheoli ei ffocws ei hun.<br>Gall ganolbwyntio ar un peth ar y tro (y dasg neu'r cyfarwyddyd sydd ddim yn gysylltiedig).<br>Gall newid ffocws ei sylw'n annibynnol. | **Sylw dwy sianel**<br>Gall ymgymryd â thasg a deall cyfarwyddyd ar yr un pryd.<br>Gall ei sylw fod yn fyr ond nawr gellir eu haddysgu mewn grŵp. | **Sylw integredig**<br>Mae'r sylw wedi'i reoli, ei gynnal a'i sefydlu'n dda ar draws sefyllfaoedd gwahanol, gyda phobl wahanol. |

- **Efallai y bydd rhai plant yn gweithredu ar lefel sy'n is na'u hoed cronolegol**
- **Ni all plant ddatblygu eu sgiliau lleferydd, iaith a chyfathrebu os nad ydynt yn gallu talu sylw neu wrando**

| Gweithgaredd | Sylw a Gwrando - Gweithgareddau a Awgrymir (0 i 6 mis) | Rhy anodd? | Rhy hawdd? |
|---|---|---|---|
| **Gwrando am synau** | ***Gwneud synau swnllyd/tawel a chyflym/araf.*** Annog babi i wneud synau.<br><br>**Sut i chwarae:** Llenwch focsys a photeli gyda phasta, pys, reis neu ffa sych. Sicrhewch fod y caeadau arnynt yn dynn a'u hysgwyd nhw i babi. Gadewch i babi gael tro hefyd. | Gwnewch sŵn a rhowch amser i babi brosesu'r sŵn. Dechreuwch gyda synau tawel ac adeiladwch i fyny at synau mwy swnllyd. | Rhowch dro ar synau cyflym ac araf hefyd. |
| **Canu caneuon a rhigymau** | ***Talu sylw i'ch llais***. Annog babi i'ch gwylio chi ac i 'gopïo' eich symudiadau. Efallai y byddan nhw'n ymuno gyda rhai synau.<br><br>**Sut i chwarae:** Cynhaliwch babi gyda chlustogau neu eisteddwch gyda nhw ar eich côl/glin yn eich wynebu. Canwch a gwnewch y symudiadau ar gyfer caneuon a rhigymau syml. | Wynebwch babi a siarad â nhw, i weld os ydyn nhw'n gallu ymateb i'ch llais gyda chyswllt llygaid. | Canwch fwy o rigymau a chaneuon gyda nhw. |
| **Archwilio synau gwahanol yn yr amgylchedd** | ***Sylwi ar synau yn yr amgylchedd.*** Annog babi i adnabod synau yn eu hamgylchedd.<br><br>**Sut i chwarae:** Wrth i chi ddal babi ac archwilio'r cartref neu'r lleoliad, labelwch y synau maen nhw'n gallu eu clywed. *'Fi'n gallu clywed y ffôn yn canu.''Fi'n gallu clywed ci yn cyfarth.'…* | Dechreuwch gydag un sŵn ar y tro. | Cyflwynwch synau swnllyd a thawel. |

| Gweithgaredd | Sylw a Gwrando - Gweithgareddau a Awgrymir<br>(6 mis i 12 mis) | Rhy anodd? | Rhy hawdd? |
|---|---|---|---|
| **Gwrando am synau** | ***Annog babi i wneud synau gwahanol ac i adnabod synau gwahanol.*** Mae babi yn adnabod ac yn archwilio synau gwahanol.<br><br>**Sut i chwarae:** Gwnewch offerynnau gan ddefnyddio bocsys a photeli yn llawn pasta, reis, pys neu ffa sych. Yna, eu hysgwyd a gadael i babi eu hysgwyd hefyd.<br>Gallwch hefyd daro sosbenni gyda llwyau cegin ayb. er mwyn gwneud sŵn.<br>Siaradwch am y synau y gallwch chi eu clywed gan eich offerynnau. | Dechreuwch gydag un sŵn ar y tro. | Cyflwynwch synau swnllyd a thawel |
| **Canu caneuon a rhigymau** | ***Dysgu am sŵn, synau a geiriau.*** Annog babi i'ch gwylio chi a 'chopïo' eich symudiadau. Efallai y byddan nhw'n ymuno gyda rhai synau.<br><br>**Sut i chwarae:** Eisteddwch yn wynebu babi, canwch ganeuon â symudiadau a chefnogwch babi gan ddefnyddio symudiadau ac ystumiau e.e. siglo babi nôl ac ymlaen yn ysgafn ar gyfer 'Fuoch chi 'rioed yn morio'.<br><br>Gadewch saib yn ystod y gân ac arhoswch am ymateb gan babi. | Wynebwch babi a chanu caneuon â symudiadau iddynt, gan wneud yr ystumiau hyn. | Canwch fwy o rigymau a chaneuon gyda nhw ac yna gadewch seibiannau er mwyn cael ymateb. |
| **Archwilio synau gwahanol yn yr amgylchedd** | ***Sylwi ar synau penodol yn yr amgylchedd a gwrando arnyn nhw.*** Adnabod synau gwahanol a'u harchwilio.<br><br>**Sut i chwarae:** Pan fyddwch chi allan yn yr awyr agored, gwrandewch am synau gwahanol a dwedwch, *'Fi'n gallu clywed...'* (e.e. ci, seiren, corn, aderyn). | Dechreuwch gydag un sŵn ar y tro. | Archwiliwch amrywiaeth o synau a dwedwch rywbeth pan fydd y sŵn wedi gorffen. |

| Gweithgaredd | Sylw a Gwrando - Gweithgareddau a Awgrymir (12 mis i 18 mis) | Rhy anodd? | Rhy hawdd? |
|---|---|---|---|
| **Gwrando am synau** | ***Annog y plentyn i wneud synau gwahanol.*** Mae'r plentyn yn adnabod ac yn gwneud synau gwahanol.<br><br>**Sut i chwarae:** Gwnewch offerynnau gan ddefnyddio bocsys a photeli wedi eu llenwi â phasta, reis, pys neu ffa sych. Yna, eu hysgwyd a gadael i'r plentyn eu hysgwyd hefyd. Gallech hefyd daro sosbenni gyda llwyau cegin ayb. er mwyn gwneud sŵn.<br><br>Siaradwch am y synau y gallwch chi eu clywed o'ch offerynnau chi e.e. *'Bang, bang', 'Mae hynna'n swnllyd'.* Anogwch y plentyn i wneud synau gwahanol e.e. *'Beth am wneud sŵn hir?'.* | Dechreuwch gydag un sŵn ar y tro. | Cyflwynwch gysyniadau gwahanol fel 'swnllyd/tawel', 'hir/byr'. |
| **Canu caneuon a rhigymau** | ***Dysgu am sŵn, synau a geiriau.*** Ymuno gyda rhai synau, symudiadau neu eiriau.<br><br>**Sut i chwarae:** Eisteddwch wyneb-yn-wyneb â'r plentyn. Canwch ganeuon â symudiadau sydd o ddiddordeb i'r plentyn e.e. 'Mi Welais Jac y Do'. Gadewch saib yn ystod y gân ac aros am ymateb gan y plentyn - gallai fod yn symudiad neu'n air.<br><br>Efallai y bydd y plentyn yn gofyn am hoff gân sy'n defnyddio symudiadau neu eiriau. | Wynebwch y plentyn a'u cefnogi i ddefnyddio symudiadau syml ar gyfer y caneuon. | Canwch fwy o rigymau a chaneuon gyda nhw ac yna gadewch seibiannau er mwyn cael ymateb. Gadewch iddyn nhw ddewis y gân maen nhw am ei chanu. |
| **Archwilio synau gwahanol yn yr amgylchedd** | ***Annog y plentyn i adnabod synau gwahanol.*** Mae'r plentyn yn adnabod ac yn nodi synau gwahanol.<br><br>**Sut i chwarae:** Ewch am 'dro gwrando' a thynnwch sylw'r plentyn at synau amgylcheddol e.e. *'Fi'n gallu clywed...'* (e.e. ci, seiren, corn, aderyn). Gwnewch ystumiau fel cwpanu eich llaw dros eich clust wrth siarad am wrando. Os yw'r sŵn yn stopio, dywedwch '*Wedi mynd'.* | Dechreuwch gydag un sŵn ar y tro. | Archwiliwch amrywiaeth o synau a dwedwch rywbeth pan fydd y sŵn wedi gorffen. |

## Mae sgiliau chwarae yn dilyn dilyniant datblygiadol:

**Chwarae archwiliadol (geni tan tua 5 mis oed):**Ysgwyd, cega, taro a throi teganau a gwrthrychau eraill drosto er mwyn ceisio darganfod beth ydynt. Tua 9 mis oed, bydd yn edrych am wrthrych sydd wedi cael ei guddio (mae'n deall sefydlogrwydd gwrthrych).
**Adnabod gwrthrychau (tua 12 mis):**Mae'n dangos dealltwriaeth o'r defnydd priodol o wrthrych heb esgus e.e. defnyddio brwsh ar eu gwallt.

**Chwarae gyda gwrthrychau (rhwng 8 ac 20 mis):** Esgus defnyddio gwrthrych arnyn nhw eu hunain e.e. defnyddio cwpan tegan i yfed.

**Chwarae cymeriadau (rhwng 16 a 26 mis):** Defnyddio cymeriadau tegan yn eu chwarae e.e. rhoi diod i'r dinosor.

**Efelychu arferion (tua 22 i 36 mis):**Mae'n efelychu arferion syml trwy chwarae e.e. rhoi bath i'r doli a'u gwisgo'n barod i'r gwely. Mae chwarae byd bach yn dod yn fwy cymhleth ac efelychir senarios a straeon. Mae'n defnyddio gwrthrychau'n ddychmygus e.e. gallai bocs fod yn gar/wely.

**Chwarae rôl (tua 3 i 4 blwydd oed):**Gwisgo i fyny'n syml i ddechrau, ac yna'n raddol yn chwarae rôl fwy dychmygus y cymeriad cyfan.

**Chwarae dychmygus cymhleth a chydweithredol (4 blwydd oed +):** Mae'n efelychu dilyniannau y mae'n eu gweld yn eu hamgylchedd, mewn llyfrau ac ar y teledu e.e. arferion y cartref.

### Mae sgiliau rhyngweithio yn adeiladu wrth chwarae ac yn cynnwys y gallu i chwarae'n gydweithredol gyda chyfoedion a chymryd tro:

| 0 i 9 mis | 9 i 18 mis | 18 mis i 3 blwydd oed |
|---|---|---|
| Mae rhyngweithiadau yn dechrau ac y gorffen gyda chyswllt llygaid babi, e.e. gêmau fel pi-po. | Bydd y plentyn yn dechrau rhyngweithiadau gyda geiriau a heb eiriau e.e. pwyntio, rhoi a dangos. Gallai'r rhyngweithio orffen wrth i'r plentyn symud i ffwrdd. Rhyngweithiadau wedi eu cyfyngu at 1 neu 2 dro i bob partner. | Gall rhyngweithiadau ddechrau trwy ddefnyddio enw e.e. *'Mami'*. Mae'n dechrau ymateb i gwestiynau gyda geiriau. Mae'n ailadrodd neu'n newid ei (l)lefaru os nad ydyw wedi cael ei (d)deall. Efallai y bydd rhyngweithiadau wedi eu cyfyngu at sefyllfaoedd cyffyrddus, cyfarwydd. |
| **3 i 4 blwydd oed** | **4 i 7 blwydd oed** | **7 blwydd oed +** |
| Mae ganddynt ddewis o strategaethau i ddechrau sgwrsio e.e. *'Ti'n gw'bod beth?'* Nifer y troeon mewn sgwrs yn cynyddu. Gall gyfathrebu'n well gyda phobl ddieithr. Gall gymryd rhan mewn sgyrsiau sy'n chwarae rôl. Mae'n defnyddio iaith eang ar gyfer amrywiaeth o swyddogaethau e.e. holi cwestiynau, gwneud awgrymiadau, rhoi cyfarwyddyd i eraill. | Gall ddechrau a diweddu sgyrsiau a chymryd tro yn well. Mae'n dysgu dewis yr amseriad mwyaf addas i ymuno yn sgyrsiau pobl eraill. Mae'r plentyn yn dal i feddwl bod y gwrandäwr yn rhannu ei (g)wybodaeth gefndir. Mae'n dysgu addasu arddulliau sgyrsiau ar gyfer amrywiaeth o wrandawyr e.e. teulu, ffrindiau, ac athrawon. | Mae'n dod yn fwy ymwybodol o'r gwrandäwr a'i (g)wybodaeth gefndir. Mae'n cyfleu elfennau craff gyda goslef a phwyslais. Mae'n defnyddio iaith i berswadio, cyfleu anghymeradwyaeth ac er mwyn bod yn gwrtais. Mae'n datblygu addasrwydd cymdeithasol. |

| Gweithgaredd | Chwarae a Rhyngweithio - Gweithgareddau a Awgrymir<br>(0 i 6 mis) | Rhy anodd? | Rhy hawdd? |
|---|---|---|---|
| **Cymryd Tro** | ***Cyflwyno'r syniad o gymryd tro.*** Dechrau cymryd tro wrth 'sgwrsio'.<br><br>**Beth i'w wneud:** Pan fydd babi'n dechrau gwenu (tua 6 wythnos) gwenwch yn ôl. Os yw babi'n dechrau gwneud sŵn neu chwerthin, ailadroddwch eu synau yn ôl. Parhewch nes iddynt golli diddordeb. | Dechreuwch gyda gwên. | Ceisiwch weld os allwch chi ddal 'sgwrs' gyda babi yn 'siarad' â chi. |
| **Adeiladu tŵr** | ***Gwrando ar eiriau allweddol fel 'crash' a mwynhau gweld y cyfan yn disgyn.*** Defnyddio'r geiriau 'mwy'/'eto'. Gweld os yw babi'n ymateb trwy wenu.<br><br>**Beth i'w wneud:** Adeiladwch dŵr gyda blociau meddal neu gwpanau, yna'i daro i lawr a dechrau eto. Siaradwch wrth i chi roi mwy o gwpanau/flociau ar y tŵr e.e. 'mwy', 'i fyny' neu 'lan'. | Defnyddiwch ddau floc neu gwpan. | Adeiladwch dŵr mwy uchel. |
| **Chwarae gyda gwrthrychau** | ***Dilyn eich dwylo ac ymateb i'ch llais a mynegiannau'r wyneb.*** Gweld os yw babi'n eich dilyn gyda'u llygaid.<br><br>**Beth i'w wneud:** Cuddiwch Tedi tu ôl i'ch cefn. Dangoswch eich dwylo i babi a dweud, *'O na, mae Tedi wedi mynd'.* Yna dangoswch Tedi i babi a dweud, *'Dyma Tedi'.* | Dangoswch Tedi a gadewch i babi archwilio Tedi eu hunain trwy gyffwrdd. | Cuddiwch Tedi mewn llefydd gwahanol. |

| Gweithgaredd | Chwarae a Rhyngweithio - Gweithgareddau a Awgrymir (6 mis i 12 mis) | Rhy anodd? | Rhy hawdd? |
|---|---|---|---|
| **Cymryd Tro** | ***Cymryd tro a chadw'r gweithgaredd i fynd.*** Cymryd tro yn barod i chwarae a sgwrsio.<br><br>**Beth i'w wneud:** Arhoswch i babi wenu, gwneud sŵn neu parablu - copïwch a chadw'r troeon i fynd mor hir ag y mae babi'n ei ddymuno. | Lleihewch nifer y troeon e.e. dechreuwch gydag un tro yr un. | Cymerwch dro mewn sefyllfaoedd gwahanol e.e. gyda synau neu ystumiau eraill. |
| **Adeiladu tŵr** | ***Gwrando am eiriau allweddol fel 'crash'.***Mwynhau gweld y cyfan yn disgyn ac yna eisiau ailadrodd y gêm (sylwch os yw babi'n dangos eu bod yn mwynhau).<br><br>**Beth i'w wneud:** Adeiladwch dŵr gyda blociau meddal neu gwpanau, yna'i daro i lawr a dechrau eto. Siaradwch am yr hyn rydych chi'n ei wneud ac adeiladwch ddisgwyliad babi, e.e. *'lan, lan...crash'.* | Defnyddiwch ddau floc neu gwpan. | Anogwch y plentyn i adeiladu'r tŵr. |
| **Chwarae gyda gwrthrychau** | ***Gwybod bod gwrthrych yno o hyd pan fydd wedi'i guddio.*** Datblygu sefydlogrwydd gwrthrych.<br><br>**Beth i'w wneud:** Cuddiwch Tedi neu degan arall tu ôl i'ch cefn. Dangoswch eich dwylo gwag a dwedwch, *'Ble mae Tedi wedi mynd?'* Yna dewch â Tedi nôl a dwedwch, *'Dyma Tedi'.* | | Cuddiwch wrthrychau mewn llefydd gwahanol. |

| Gweithgaredd | Chwarae a Rhyngweithio - Gweithgareddau a Awgrymir (12 mis i 18 mis) | Rhy anodd? | Rhy hawdd? |
|---|---|---|---|
| **Cymryd Tro** | ***Cymryd tro i chwarae a sgwrsio.*** Cadw tro i fynd.<br><br>**Beth i'w wneud:** Efelychwch y gwenu, y synau, yr ystumiau a'r geiriau. Parhewch i gymryd tro mor hir ag y mae'r plentyn yn ei ddymuno a chopïwch eu chwerthin a'u parablu.<br>Gwnewch sylwadau gan ddefnyddio iaith fel *'Fy nhro i, dy dro di'.*<br>Symudwch ymlaen at gymryd tro trwy rolio pêl ac adeiladu tŵr. Siaradwch am yr hyn rydych chi'n ei wneud e.e. *'Rydyn ni'n rholio'r bêl'.* | Lleihewch nifer y troeon, efallai i un tro yr un. | Cymerwch eich tro mewn sefyllfaoedd a gêmau gwahanol. |
| **Adeiladu tŵr** | ***Gwrando am eiriau allweddol fel 'crash'.***Dangos mwynhad a chyfathrebu eu bod eisiau ailadrodd y gêm.<br><br>**Beth i'w wneud:** Eisteddwch wyneb-yn-wyneb â'r plentyn. Adeiladwch dŵr gyda blociau neu gwpanau ac yna'i daro i lawr a dechrau eto.<br>Siaradwch am yr hyn rydych chi'n ei wneud, e.e. *'lan, lan, crash', ac 'Ar eich marciau, barod, ewch'.* Anogwch y plentyn i adeiladu eu tŵr eu hunain.<br>Symudwch ymlaen i ddefnyddio geiriau mwy cymhleth i ddisgrifio'r tŵr. | Defnyddiwch ddau floc/cwpan. | Anogwch y plentyn i adeiladu tyrau mwy o faint. |
| **Chwarae gyda gwrthrychau** | ***Modelu sut i ddefnyddio gwrthrychau bob dydd.*** Datblygu chwarae gyda gwrthrychau.<br><br>**Beth i'w wneud:** archwilio gwrthrychau bob dydd e.e. cwpan, brwsh, allweddi. Dangoswch i'r plentyn sut i'w defnyddio ar ei hunain e.e. cwpan tegan i esgus yfed. | Lleihewch nifer y gwrthrychau a modelwch sut i'w defnyddio'n gywir. | Anogwch y chwarae yma ar ddoliau neu tedis mawr. |

## Mae Deall Iaith Lafar (iaith dderbyngar) yn dilyn dilyniant a gydnabyddir:

| Geni | 6 mis | 12 mis |
|---|---|---|
| Ymateb i synau (geiriol neu ddieiriau). Ymateb i oslef ac emosiwn mewn lleisiau. | Mae'n deall ymadroddion cyfan pan fyddant yn cael eu defnyddio mewn arferion cyfarwydd. | Mae'n deall geiriau allweddol mewn sefyllfaoedd cyfarwydd (yn aml gelwir hyn yn ddealltwriaeth sefyllfaol). |
| **18 mis** | **2 flwydd oed** | **2 ½ flwydd oed** |
| Mae'n deall enwau gwrthrychau sy'n absennol pan fyddant yn cael eu defnyddio mewn brawddegau cyfarwydd ar unrhyw adeg. | Mae'n gallu ffurfio cysylltiad rhwng dau wrthych sy'n cael eu henwi.<br><br>Mae'n gallu adnabod gwrthrychau wrth ddisgrifio'r defnydd ohonynt. | Mae'n deall gweithredoedd syml a phriodoleddau sydd ddim yn ymwneud ag ef/hi ei hun.<br><br>Mae'n deall arddodiaid syml, e.e. *dan, ar, trwy* a chysyniadau maint syml, e.e. *mawr, bach,* pan fyddant yn cael eu defnyddio mewn brawddegau syml.<br><br>Mae'n dechrau deall 'amser' fel cyfeiriad at y gorffennol neu'r dyfodol agos. |
| **3 blwydd oed** | **4 blwydd oed** | **5 mlwydd oed +** |
| Mae'n ffurfio cysylltiad rhwng hyd at dri gair mewn brawddeg pan na fydd unrhyw gliwiau eraill i helpu.<br><br>Mae'n dechrau deall amser, e.e. *Rydyn ni <u>wedi bod</u> i'r siop; Rydyn ni'n <u>mynd</u> i'r siop.*<br><br>Mae'n deall cysyniadau syml siâp a lliw pan fyddant yn cael eu defnyddio mewn brawddegau syml. | Mae'n dilyn dilyniant stori syml.<br><br>Mae'n deall y rhan fwyaf o frawddegau syml.<br><br>Mae'n parhau i elwa ar gliwiau sefyllfaol. | Yn raddol, mae'n deall brawddegau mwy cymhleth allan o'u cyd-destun.<br><br>Mae eu geirfa dderbyngar yn parhau i ddatblygu. |

| Gweithgaredd | Deall Iaith Lafar - Gweithgareddau a Awgrymir (0 i 6 mis) | Rhy anodd? | Rhy hawdd? |
|---|---|---|---|
| **Rhannu llyfrau** | ***Edrych ar lyfr gyda'ch gilydd.*** Helpu babi i glywed geiriau newydd, wrth iddynt weld y lluniau.<br><br>**Beth i'w wneud:** Eisteddwch gyda babi ar eich côl/glin gyda llyfr bwrdd neu luniau syml. Trowch y dudalen y ofalus a dwedwch beth sydd ar bob tudalen. | Defnyddiwch lyfrau bwrdd a llyfrau lluniau syml iawn. | Cyflwynwch lyfr 'teimlo' er mwyn cael babi i chwarae mwy o ran. |
| **Archwilio gwrthrychau bob-dydd** | ***Archwilio a chlywed y geiriau am wrthrychau bob-dydd e.e. defnyddio bocs tap-tap, bag syrpreis, basged trysor.*** Defnyddio pob un o'u synhwyrau a chlywed enw'r gwrthrych.<br><br>**Beth i'w wneud:** Rhowch 3 neu 4 gwrthrych sy'n teimlo ac yn edrych yn wahanol mewn bag neu focs. Tynnwch un allan, dangoswch i babi, siaradwch am y ffordd mae'n teimlo/edrych/arogleuo a gadewch iddyn nhw ei archwilio. Anogwch babi i'w ddal os yn bosibl. | Defnyddiwch un gwrthrych. | Cyflwynwch fwy o wrthrychau bob tro. |
| **Gwneud llyfr** | ***Edrych ar bobl gyfarwydd a chlywed eu henwau.***<br><br>**Beth i'w wneud:** Rhowch 5 neu 6 llun o aelodau o'r teulu a ffrindiau mewn llyfr. Dywedwch enw'r person wrth i chi ddangos eu llun. | Arafwch y cyflymder a dangoswch un llun ar y tro. | Ychwanegwch fwy o luniau at y llyfr. |

| Gweithgaredd | Deall Iaith Lafar - Gweithgareddau a Awgrymir (6 mis i 12 mis) | Rhy anodd? | Rhy hawdd? |
|---|---|---|---|
| **Rhannu llyfrau** | ***Edrych ar lyfr gyda'ch gilydd.*** Helpu babi i ddysgu geiriau newydd, wrth iddynt gysylltu eich geiriau at y lluniau maen nhw'n eu gweld.<br><br>**Beth i'w wneud:** Eisteddwch wyneb-yn-wyneb â babi mewn rhywle tawel. Edrychwch ar lyfr syml gyda'ch gilydd - anogwch babi i ddal y llyfr a throi'r tudalennau. Siaradwch am rywbeth sydd o ddiddordeb i babi. Dilynwch arweiniad babi - nid oes rhaid i chi ddechrau ar ddechrau'r llyfr. | Defnyddiwch lyfrau bwrdd a llyfrau lluniau syml iawn. | Cyflwynwch lyfr 'teimlo' a 'swnllyd' fel bod babi'n chwarae mwy o ran. |
| **Archwilio gwrthrychau bob-dydd** | ***Archwilio a dysgu'r geiriau am wrthrychau bob-dydd e.e. defnyddio bocs tap-tap, bag syrpreis, basged trysor.*** Archwilio'r gwrthrych a sut i'w ddefnyddio'n briodol. Dysgu enw'r gwrthrych.<br><br>**Beth i'w wneud:** Rhowch 3 neu 4 gwrthrych bob-dydd sy'n teimlo ac yn edrych yn wahanol, mewn bag neu focs. Tynnwch un allan a'i ddangos i babi. Enwch y gwrthrych a dangoswch i babi sut i'w ddefnyddio e.e. brwsio dannedd gyda brwsh dannedd. Anogwch babi i archwilio'r gwrthrych a chopïo sut i'w ddefnyddio'n gywir. | Defnyddiwch un neu ddau wrthrych. | Cyflwynwch wrthrych gwahanol bob tro. |
| **Gwneud llyfr** | ***Edrych ar bobl a gwrthrychau cyfarwydd, clywed eu henwau a'u dysgu.*** Dysgu enwau pobl a gwrthrychau cyfarwydd yn eu bywydau.<br><br>**Beth i'w wneud:** Rhowch 5 eu 6 llun o aelodau o'r teulu, ffrindiau a gwrthrychau mewn llyfr lluniau. Defnyddiwch enwau wrth i chi ddangos y llun i babi. | Cyfyngwch ar nifer y lluniau. | Ychwanegwch fwy o luniau at y llyfr. |

| Gweithgaredd | Deall Iaith Lafar - Gweithgareddau a Awgrymir (12 mis i 18 mis) | Rhy anodd? | Rhy hawdd? |
|---|---|---|---|
| **Rhannu llyfrau** | ***Edrych ar lyfr gyda'ch gilydd.*** Helpu'r plentyn i ddysgu geiriau ac ymadroddion newydd, wrth iddynt gysylltu geiriau a lluniau.<br><br>**Beth i'w wneud:** Eisteddwch wyneb-yn-wyneb â'r plentyn mewn rhywle tawel. Edrychwch ar lyfr sydd â straeon byr a brawddegau syml. Gadewch i'r plentyn ddewis y llyfr a'i ddal, a throi'r tudalennau eu hunain os ydynt yn dymuno gwneud hynny. Siaradwch am yr hyn sydd o ddiddordeb iddynt gan ddefnyddio brawddegau byr, syml. Gallwch ddarllen y llyfr eu ffordd nhw - nid oes rhaid i chi ddechrau ar ddechrau'r llyfr. | Defnyddiwch lyfrau â lluniau syml, heb lawer o eiriau. | Cyflwynwch fwy o eiriau wrth rannu'r llyfr. |
| **Archwilio gwrthrychau bob-dydd** | ***Dysgu'r geiriau am wrthrychau e.e. defnyddio bocs tap-tap, bag syrpreis, basged trysor.*** Dysgu'r enwau am wrthrychau cyfarwydd a gwrthrychau newydd a sut i'w defnyddio'n briodol.<br><br>**Beth i'w wneud:** Rhowch 3 neu 4 gwrthrych cyfarwydd/newydd mewn bag neu focs. Tynnwch un allan, trafodwch beth ydyw a dangoswch iddynt sut i'w ddefnyddio e.e. jwg. Anogwch y plentyn i archwilio'r gwrthrych. Gofynnwch i'r plentyn ddangos gwrthrychau penodol i chi e.e. *'Ble mae'r llwy?'*<br>Ceisiwch beidio â phrofi'r plentyn am enw'r gwrthrych - y syniad yw cael y plentyn i glywed y gair. | Defnyddiwch un gwrthrych ar y tro. | Cyflwynwch lai o wrthrychau cyfarwydd bob tro. |
| **Gwneud llyfr** | ***Gwneud llyfr o bethau y mae'r plentyn wedi eu gwneud yn ystod y dydd.*** Dysgu'r geiriau am weithgareddau a gwrthrychau bob-dydd.<br><br>**Beth i'w wneud:** Cymerwch ffotograffau o'r pethau y mae'r plentyn wedi eu gwneud yn ystod y dydd a'u gludo i mewn i lyfr er mwyn gwneud stori fach e.e. *'Rydw i wedi bod i'r parc. Rydw i wedi gweld aderyn. Rydw i wedi bod ar y llithren.'* | Siaradwch am un llun ar y tro. | Ychwanegwch fwy o luniau at y llyfr. |

**Mae Defnyddio Iaith Lafar (iaith fynegiannol) yn dilyn dilyniant a gydnabyddir:**

| 9 mis | 18 mis | 2 flwydd oed |
|---|---|---|
| Parablu, ymgais gynnar i ddweud geiriau e.e. *'Dada'* | Mae'n defnyddio tua 50 i 100 o eiriau gyda geiriau y gellir eu hadnabod yn well.<br>Weithiau mae'n defnyddio ymadroddion dau-air a ddysgodd e.e. *'wedi mynd'* | Mae'n defnyddio tua 200 i 300 o eiriau. Mae'n rhoi 2 a 3 gair gyda'i gilydd mewn brawddegau byr e.e.<br>*'Fi mynd adref'.* |
| **2 ½ flwydd oed** | **3 blwydd oed** | **3 ½ blwydd oed** |
| Mae'n rhoi brawddegau 3- a 4-gair at ei gilydd gan ddefnyddio mathau gwahanol o eiriau.<br>Mae'n dechrau defnyddio 'geiriau cwestiwn' e.e. *'Fi mynd fanna?'* | Mae'n cysylltu mwy na 4 gair at ei gilydd.<br>Mae'n dechrau defnyddio *'a'* i gysylltu syniadau.<br>Mae'n dechrau defnyddio rhagenwau, *'fi', 'fe', 'hi'* a geiriau lluosog e.e. *'Fi moyn sudd a losins.'* | Mae'n cysylltu syniadau at ei gilydd gan ddefnyddio *'achos'* e.e. *'Fi'n gwisgo welis achos mae'n bwrw glaw.'*<br>Mae'n holi cwestiynau mwy cymhleth gan ddefnyddio *'pam'* a *'fel'.* |
| **4 blwydd oed** | | **4 ½ blwydd oed** |
| Mae'n defnyddio iaith am amrywiaeth o resymau e.e. er mwyn ailadrodd hoff straeon, chwarae gêmau dychmygus ac ailadrodd digwyddiadau.<br>Mae'n siarad i ddatrys problemau a ffurfio cyfeillgarwch.<br>Mae'n holi llawer o gwestiynau er mwyn darganfod mwy o wybodaeth. | | Mae gan blant eirfa o tua 5000 o eiriau a mwy. |

| Gweithgaredd | Defnyddio Iaith Lafar - Gweithgareddau a Awgrymir (0 i 6 mis) | Rhy anodd? | Rhy hawdd? |
|---|---|---|---|
| **Copïo** | ***Copïo synau a mynegiant y wyneb.*** Darganfod os yw babi'n gallu eich copïo chi.<br><br>**Beth i'w wneud:** Eisteddwch gyda babi'n eich wynebu chi yna tynnwch wynebau doniol a gwnewch synau doniol (e.e. sŵn ceffyl yn gweryru). Darganfyddwch os ydyn nhw'n ceisio gwneud yr un sŵn yn ôl. | Dilynwch arweiniad babi - ailadroddwch beth maen nhw'n ei wneud. | Defnyddiwch fynegiant wyneb a synau gwahanol. |
| **Swigod** | ***Chwythu swigod i babi.*** Dangos mwynhad a defnyddio synau a symudiadau'r corff i gyfathrebu 'mwy'.<br><br>**Beth i'w wneud:** Chwythwch swigod gyda babi a'u popio'n ysgafn. Gwyliwch i weld os ydyn nhw'n ymateb gyda synau/symudiadau'r corff i ddangos eu bod yn mwynhau'r gweithgaredd. | Chwythwch un swigen ar y tro yn ofalus. | Chwythwch lawer o swigod a gwyliwch i weld sut mae babi'n ymateb. |
| **Ar eich marciau, barod, 'ewch'** | ***Aros i glywed 'ewch' mewn gêmau.*** Dangos mwynhad a defnyddio synau a symudiadau'r corff i gyfathrebu *'ewch'*.<br><br>**Beth i'w wneud:** Defnyddiwch degan ac arhoswch i babi gyfathrebu 'ewch' (trwy synau/symudiadau'r corff) wrth chwarae gyda'ch gilydd. Dywedwch *'Ar eich marciau, barod...'* Arhoswch i babi wneud sŵn/symudiad cyn i chi wneud unrhyw beth e.e. gwthio'r car i lawr y ramp neu ryddhau'r tegan sydd wedi'i weindio i fyny i wneud sŵn. | Cyfathrebwch 'ewch' eich hun. | Defnyddiwch amrywiaeth o deganau. |

| Gweithgaredd | Defnyddio Iaith Lafar - Gweithgareddau a Awgrymir<br>(6 mis i 12 mis) | Rhy anodd? | Rhy hawdd? |
|---|---|---|---|
| **Copïo** | ***Copïo symudiadau ac ystumiau.*** Darganfod os yw babi'n copïo eich symudiadau, ystumiau a mynegiant y wyneb.<br><br>**Beth i'w wneud:** Eisteddwch gyda babi o flaen drych a siaradwch am yr hyn allwch chi ei weld. Gwnewch ystumiau gwahanol gyda'ch wyneb a symudiadau syml, i weld os yw babi'n eich copïo e.e. chwifio, clapio. Siaradwch am y symudiad rydych chi'n ei wneud e.e. 'Rwy'n chwifio'. Copïwch y symudiadau mae babi'n eu gwneud hefyd. | Dilynwch arweiniad babi - ailadroddwch beth maen nhw'n ei wneud. | Cyflwynwch symudiadau gwahanol. |
| **Gwneud Marciau** | ***Gwneud marciau a gwrando ar y geiriau cysylltiedig.*** Archwilio defnyddiau gwahanol i wneud marciau a chlywed y geiriau am yr hyn maen nhw'n ei wneud.<br><br>**Beth i'w wneud:** Defnyddiwch fyrddau du, tywod, paent, ffenestri neu ddrychau sy'n llawn stêm i wneud marciau. Siaradwch am yr hyn mae babi'n ei wneud a sut mae'n edrych ac yn teimlo. Defnyddiwch eiriau, synau ac ystumiau syml yn ystod y gweithgaredd e.e. *'www', 'meddal', 'pert'* ayb. | Gwnewch y marciau a siaradwch am yr hyn rydych chi'n ei wneud er mwyn i babi weld a chlywed. | Defnyddiwch eiriau gwahanol wrth wneud marciau. |
| **Ar eich marciau, barod, 'ewch'** | ***Aros am 'ewch' mewn gêmau.*** Cyfathrebu 'ewch' trwy ddefnyddio synau/ystumiau.<br><br>**Beth i'w wneud:** Chwaraewch gêmau fel chwythu swigod, adeiladu tŵr neu ddefnyddio tegan wedi'i weindio. Cyn chwythu'r swigen neu chwalu'r tŵr, dywedwch *'Ar eich marciau, barod....'* ac arhoswch i babi wneud sŵn neu ystum er mwyn dangos 'ewch'. Yna, dywedwch *'ewch'* cyn chwythu'r swigod neu daro'r tŵr i lawr. Ailadroddwch hyn dro ar ôl tro. | Cyfathrebwch 'ewch' eich hun. | Defnyddiwch amrywiaeth o deganau. |

| Gweithgaredd | Defnyddio Iaith Lafar - Gweithgareddau a Awgrymir (12 mis i 18 mis) | Rhy anodd? | Rhy hawdd? |
|---|---|---|---|
| **Copïo** | ***Copïo symudiadau/synau/geiriau.*** Darganfod os yw'r plentyn yn copïo eich symudiadau/synau/geiriau.<br><br>**Beth i'w wneud:** Eisteddwch wyneb-yn-wyneb â'r plentyn i weld os ydyn nhw'n copïo eich mynegiant wyneb/symudiadau e.e. clapio dwylo. Siaradwch am y symudiad rydych chi'n ei wneud e.e. 'Rwy'n chwifio'. Copïwch y symudiadau/synau/geiriau y mae'r plentyn yn eu gwneud. | Dilynwch arweiniad y plentyn - ailadroddwch yr hyn maen nhw'n ei ddweud a'i wneud. | Cyflwynwch symudiadau, synau neu eiriau gwahanol. |
| **Gwneud Marciau** | ***Gwneud marciau a gwrando ar y geiriau cysylltiedig.*** Archwilio defnyddiau gwahanol er mwyn gwneud marciau a chlywed y geiriau ar gyfer yr hyn maen nhw'n ei wneud.<br><br>**Beth i'w wneud:** Defnyddiwch fyrddau du, tywod, paent, blawd neu reis i wneud marciau gyda'u dwylo, bysedd a thraed. Siaradwch am yr hyn mae'r plentyn yn ei wneud a sut mae'n edrych/teimlo. Defnyddiwch eiriau yn ystod y gweithgaredd hwn e.e. *'peintio', 'dabio', brwsh', 'darlunio'* ayb. | Gwnewch y marciau a siaradwch am yr hyn rydych chi'n ei wneud er mwyn i'r plentyn ei weld a'i glywed. | Defnyddiwch amrywiaeth ehangach o eiriau, gan gynnwys geiriau disgrifiadol. |
| **Ar eich marciau, barod, 'ewch'** | ***Cyfathrebu 'ewch' mewn gêmau.*** Defnyddio synau/ystumiau/geiriau.<br><br>**Beth i'w wneud:** Chwaraewch gêmau fel chwythu swigod, adeiladu tŵr, sgitls neu ddefnyddio tegan weindio. Cyn chwythu'r swigod neu daro'r tŵr i lawr, dywedwch *'Ar eich marciau, barod...'* ac yna arhoswch i'r plentyn wneud sŵn, ystum neu air i ddangos 'ewch'. Yna dywedwch '*ewch'* cyn chwythu'r swigod neu daro'r tŵr i lawr. Ailadroddwch hyn dro ar ôl tro. Siaradwch am yr hyn rydych chi'n ei wneud e.e. '*Ni'n chwythu'r swigod.'* | Dywedwch 'ewch' eich hun a gorbwysleisiwch wrth adeiladu i fyny at y gair 'ewch'. | Defnyddiwch amrywiaeth o deganau. |

## Datblygiad Nodweddiadol Lleferydd

| 2 flwydd 10 mis oed – 3 blwydd 10 mis oed | 3 blwydd 10 mis oed – 5 blwydd 1 mis oed | 5 blwydd 2 mis oed – 7 blwydd 3 mis oed |
|---|---|---|
| Bydd 50% o leferydd plentyn yn ddealladwy i oedolion anghyfarwydd | Bydd 75% o leferydd plentyn yn ddealladwy i oedolion anghyfarwydd | Bydd 90% o leferydd plentyn yn ddealladwy i oedolion anghyfarwydd |

Hustad, Mahr, Natke and Rathouz (2021)

- **Mae gan synau lleferydd ddilyniant datblygiadol**
- **Mae synau lleferydd yn amrywio o iaith i iaith.**
- **Gallai plant sy'n dysgu mwy nag un iaith ddatblygu synau lleferydd mewn trefn wahanol.**
- **Gweler** Speech acquisition - Multilingual Children's Speech (csu.edu.au) **am fwy o wybodaeth.**

## Poster Datblygiad Synau Lleferydd Saesneg

**(Nid oes unrhyw wybodaeth am y normau ar gyfer datblygiad synau lleferydd yn y Gymraeg)**

